

Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2016/17

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Elaine Edwards

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Undeb Cenedlaethol
Athrawon Cymru

e-bost/rhif ffôn: ucac@athrawon.com / 01970639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion. SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **2 Chwefror 2015** i:

Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5485
Ffacs: 029 2080 1044

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2016/17 a bennir yn y tabl ym mhwynt 4.1, a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig yn yr Atodiad a drafodwyd ym mhwynt 4.2?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	X
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau

Nid ydym yn cytuno'n llwyr â'r cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2016/17 a bennir yn y tabl ym mhwynt 4.1.

Credwn byddai'n well cychwyn y tymor (a'r flwyddyn ysgol) newydd ar ddydd Llun yn hytrach nag ar ddydd Iau. Dim ond Awdurdodau Lleol Grŵp B a ddewisodd y dydd Iau yn wreiddiol, sef chwe Awdurdod Lleol allan o 22.

Mae'r dyddiad gwyliau Nadolig a ddewsiwyd gan Awdurdodau Lleol yn Grŵp B, C a D, (sef cychwyn ar 26 Rhagfyr) yn ein barn ni yn afresymol o hwyr. Er bod gan athrawon wyliau swyddogol hael, nid oes ganddyn nhw'r hawl sydd gan weithwyr eraill i fwcio gwyliau ar yr adeg fwyaf cyfleus iddyn nhw. Golyga hyn nid oes un diwrnod o wyliau (dim ond dydd Sadwrn Noswyl y Nadolig) iddynt baratoi ar gyfer y Nadolig gyda'u teuluoedd. Mae angen cofio bod athrawon hefyd yn bobl â theuluoedd.

Mae 19 Rhagfyr, ar y llaw arall, a nodwyd fel awgrym ar gyfer cysoni'r dyddiad yn mynd i'r pegwn arall ac yn ymddangos yn gynnar iawn ar gyfer teuluoedd a phlant.

Mae'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig yn yr Atodiad y cyfeirir ato ym mhwynt 4.2. yn eglur ond mae'n cyfeirio'n unig at anghyfleustra i rieni fel rheswm am gysoni dyddiadau ac mae'r pwyslais yn y ddogfen ymgynghorol ar gysoni dyddiadau er lles teuluoedd ac anghenion gofal plant. Pwysleisia UCAC nad cynnig gwasanaeth gofal plant yw rôl athrawon ond addysgu plant a phobl ifainc. Mae diffyg cysoni dyddiadau ysgol yn gallu cael effaith negyddol ar addysg disgyblion ôl-14 lle mae ysgolion yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill i ddarparu cyrsiau ôl-16 a bod hynny'n digwydd yn draws-ffiniol. Gall ddisgyblion gollu gwersi oherwydd bod ysgolion â dyddiadau tymhorau ysgol wahanol. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd i ddisgyblion sydd yn y sector cyfrwng Cymraeg, oherwydd nad oes gan ysgolion cyfrwng Cymraeg y cyfleodd i weithio gydag ysgolion neu golegau addysg bellach o'r un cyfrwng iaith o fewn yr un Awdurdod Lleol.

Mae UCAC yn gadarn o'r farn bod angen gwneud pob ymdrech bosib i gadw at y terfyn amser o ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw. Fodd bynnag, cytunwn y gallai bod terfyn amser o flwyddyn ysgol gyfan ar gyfer newidiadau dan **amgylchiadau gwirioneddol eithriadol**. Byddem yn gwrthwynebu'n chwyn unrhyw newidiadau ar ôl y terfyn amser hwn.

Cwestiwn 2 – Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar effaith bosibl ein holl gynigion ar:

- a) anabledd
- b) hil
- c) rhyw ac ailbennu rhywedd
- d) oedran
- e) crefydd a chred a diffyg cred
- f) cyfeiriadedd rhywiol
- g) hawliau dynol.

Nodwch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 3 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn

gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: